

Gwiriadau Datgelu a Gwahardd (DBS)



TAFLEN GWYBODAETH

hyfforddiant CYNGOR
plant geirda diogelu
A M D D I F F Y N
cefnogi gwranddo
DIOGEL TÎM
gofal datgeliad asesriad risg
PANEL TRYL O Y W
caniatâd PARCHU
gwirfoddolwyr ymarfer da
gofal bugeiliol ymarfer da
gweithgaredd a reoleiddir DBS
AMDDIFFYNN
anrhydeddu
c l w b i e u e n c t i d
G A N L L A W I A U
tim

OEDOLYN BREGUS

Am fwy o wybodaeth ac i ddarllen y LLawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus
Ewch i www.paneldiogelwch.org.uk

Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Ein Polisi a chrynodeb o gymhwysedd

Datganiad Polisi

Mae'r arweiniad a'r cyngor yn y ddogfen hon a'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus yn ffurfio polisi mabwysiedig Undeb Annibynwyr Cymru, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru ynghylch gweithio gyda grwpiau bregus. Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus.

- ✓ **Dylai'r holl weinidogion, gweithwyr a gwirfoddolwyr sy'n ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir gyda grwpiau bregus dderbyn tystysgrif datgeliad manwl DBS gyda gwiriad o'r rhestr gwahardd cyn cychwyn ar eu gwaith. Dylid cynnal y gwiriad hwn trwy'r Panel Diogelwch Cydenwadol .**
- ✓ **Ble nad yw rôl yn ateb y gofyn cyfredol ar gyfer gweithgaredd a reoleiddir ond yn ateb y gofyn a oedd yn bodoli cyn 2012, mae'r rôl yn un gymwys ar gyfer cynnal gwiriad DBS manwl heb wiriad o'r rhestr gwahardd. Ein polisi yw y dylid bob amser gynnal gwiriad yn yr amgylchiadau uchod.**
- ✓ **Dylid ail-wneud datgeliad DBS pob 4 blynedd.**

Beth yw Gwiriad Gwasanaeth Datgeliad a Gwahardd (DBS)?

Mae datgeliadau yn galluogi sefydliadau i wirio gwybodaeth am unigolion a gedwir yng nghofnodion heddluoedd cenedlaethol a lleol a rhestrau cyfrinachol a ddelir gan y Gwasanaeth Datgeliad a Gwahardd (DBS) ar y rheini sy'n anaddas i weithio gyda grwpiau bregus.

Mae meini prawf cymhwysedd penodol er mwyn sefydlu a ddylid cynnal gwiriad ac ar ba lefel, ac fe ddylid ystyried natur y rôl a lefel y cyswllt gyda phobl bregus. 'Dydy canllawiau'r DBS ddim yn caniatáu i ni wirio pawb sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu grwpiau bregus yn ddiwahân, ac nid yw'n bosib ychwaith i gynnal 'gwiriad' rhag ofn y bydd rhywun yn gweithio gyda grwpiau bregus yn y dyfodol. Ddylai sefydliadau ddim mynd yn groes i ofynion Gorchymyn (1975) o'r Ddeddf Adfer Troseddwyr (1974) (Eithriadau) gan gyflwyno Ceisiadau Datgeliad anghymwys gyda phlant a /neu oedolion bregus. Mae'r Panel Diogelwch Cydenwadol yn gweinyddu ceisiadau DBS yn Gymraeg a Saesneg gan lynu at god ymarfer y DBS.

Pwy sy'n gymwys ar gyfer gwiriad DBS?

Mae'n *rhaidd* i weinidogion, gweithwyr a gwirfoddolwyr sy'n ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir gael gwiriad DBS manwl gyda gwiriad o'r rhestr gwahardd cyn gweithio gyda grwpiau bregus. Digwydd hyn gan ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol bod 'cyflogwr' yn sicrhau nad ydynt yn caniatáu i berson gwaharddedig ymgymryd â gweithgaredd a rheoleiddir.

Pan fo rhywun yn gweithio'n agos ac yn rheolaidd gyda grwpiau bregus ond heb ateb y meini prawf cyfredol ar gyfer gweithgaredd a reoleiddir, yn aml ceir cymhwysedd i gynnal gwiriad manwl *heb* fanylion gwahardd os oedd y gweithgaredd neu'r safle yn gymwys ar gyfer gwiriad cyn Medi 2012. Mae hyn yn cynnwys ymddiriedolwyr rheolaethol gweithredol.

Noder, os gwelwch yn dda, y cynhelir gwiriad er mwyn gweithio gyda grŵp penodol - gall fod yn blant yn unig, yn oedolion yn unig neu'n blant ac oedolion. Os yw gwiriad wedi'i gynnal er mwyn galluogi rhywun i weithio gydag un grŵp, a hwythau wedyn yn dechrau gweithio gyda grŵp gwahanol, bydd angen cynnal gwiriad arall. Mae hyn hefyd yn wir os yw unigolyn yn cychwyn cynnal gweithgaredd rheoledig a hwythau wedi bod yn cynnal gweithgaredd nas rheoleiddir ynghynt.

Beth yw Gweithgaredd a Reoleiddir a Gweithgaredd nas Rheoleiddir?

Er mwyn penderfynu a oes angen cynnal gwiriad, ac os felly ar ba lefel, mae'n hanfodol ystyried a yw'r gweithgaredd yn un a reoleiddir ai peidio yn ôl y diffiniad a geir yn y Ddeddf Amddiffyn Rhyddid, 2012.

Mae Gweithgaredd a Rheoleiddir yn: weithgaredd na all person gwaharddedig ei wneud.

A. Gyda PHLANT bydd y gweithgaredd a reoleiddir yn cynnwys:

1. Gweithgareddau heb oruchwyliaeth: megis dysgu, arolygu, hyfforddi neu ddarparu gofal personol neu gyngor/ arweiniad ar les personol.
2. Sefydliadau Penodol: gan gynnwys sefydliadau addysgol, safleoedd gofal plant a chartrefi gofal plant preswyl.
3. Gofal Personol*: Ymolchi a gwisgo, bwyta, annog, yfed a dyletswyddau toiled.
4. Gofal Iechyd* wedi'i ddarparu gan unrhyw berson gofal iechyd proffesiynol, neu o dan gyfarwyddyd neu arolygaeth gweithiwr fel hyn.
5. Gwarchod Plant Cofrestredig* a Gofalwyr-Maeth*.
6. Rheolaeth dydd i ddydd rheolaidd dros berson yn darparu gweithgaredd a reoleiddir.

Amod amledd gyda phlant: Gan eithrio'r rhai wedi eu nodi * mae amod amledd ar waith hefyd er mwyn penderfynu a yw gweithgaredd yn un a reoleiddir ai peidio. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod ynghlwm wrth y gweithgaredd:

- unwaith yr wythnos neu fwy
- 4 diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 30 niwrnod neu
- dros nos rhwng 2am - 6am gyda'r cyfle am gyswllt wyneb yn wyneb

Felly ni fyddai cynorthwydd achlysurol yn cael ei ddynodi'n gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir oni bai ei fod yn helpu gyda gofal personol neu ofal iechyd. Byddai helpu gyda gofal personol unwaith yn unig yn cael ei ddisgrifio fel gweithgaredd a reoleiddir.

B. Gydag OEDOLION Mae'r diffiniad o "Weithgaredd a Reoleiddir" yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a ddarperir fel sefyllfaoedd lle y caiff oedolyn ei ystyried yn fregus ar yr adeg arbennig honno. Ceir chwe categori o fewn y diffiniad newydd hwn o weithgaredd a reoleiddir:

1. Gofal Iechyd: wedi'i ddarparu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol neu dan gyfarwyddyd gweithiwr fel hyn.
2. Gofal Personol: Ymolchi a gwisgo, bwyta, yfed a dyletswyddau toiled.
3. Gwaith Cymdeithasol.
4. Cymorth gyda materion yn y cartref: Unrhyw un sy'n darparu cymorth dydd i ddydd i oedolyn oherwydd eu hoed, salwch neu anabledd, ble mae hyn yn cynnwys rheoli arian yr unigolyn, talu biliau'r unigolyn neu siopa ar eu rhan.
5. Cymorth gyda Rheoli Materion: Pŵer atwrnai/Dirprwyon wedi eu penodi o dan y Ddeddf Galluoedd Meddyliol.
6. Cludo oedolyn ar gyfer gofynion iechyd, gofal iechyd neu bersonol oherwydd oed, salwch neu anabledd.

Does dim gofyniad sefydliad penodol neu amledd ar gyfer oedolion fel a geir gyda phlant wedi 2012.

Fel rheol, bydd **gweithgaredd a reoleiddir** yn cynnwys y math o waith dilynol ond fe all hyn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau lleol neu'r rôl:

- Gweinidog
- Arolygydd Ysgol Sul
- Athro Ysgol Sul (nad yw'n cael ei oruchwyllo bob amser neu sy'n helpu plant ifanc neu anabl gyda'r toiled)
- Arweinydd Gwaith Ieuencid
- Gweithiwr mewn creche
- Ymwelydd bugeiliol sy'n helpu gyda chlodiant i'r ysbyty neu gyda materion ariannol neu siopa.

Mae'n rhaid i bob unigolyn sy'n ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir wneud gwiriad DBS manwl gyda gwiriad o'r rhestr gwahardd pob 4 blynedd ac fel arfer wrth newid eu rôl.

Gweithgaredd nas Rheoleiddir

Pan fydd gweithiwr cyflogedig neu wirfoddolwr yn cyflawni swyddogaeth sy'n cynnwys mynediad sylweddol i grwpiau bregus ond nad yw'n bodloni diffiniad 2012 o 'Weithgaredd a Reoleiddir' fel y nodir uchod, mae darpariaeth yn parhau i wneud cais am ddatgeliad manwl heb wiriad o'r rhestr gwahardd.

Gall hyn gynnwys:

- Cynorthwydd Ysgol Sul (dan oruchwyliaeth bob amser) ond yn cymryd rhan mewn gwaith rheolaidd gyda phlant.
- Gweithiwr oedolion bregus sydd yn cymryd rhan mewn gwaith rheolaidd/yn aml gydag oedolion bregus
- Cynorthwydd grŵp ieuenctid (dan oruchwyliaeth bob amser)
- Ymddiriedolwr (nad yw'n cymryd rhan mewn gweithgaredd penodol gyda grwpiau bregus)

Ymddiriedolwyr a gwiriadau DBS

Os yw ymddiriedolwr ynghlwm wrth weithgaredd a reoleiddir fel a ddiffinir uchod, bydd gofyn iddynt wneud gwiriad DBS manwl gyda gwiriad o'r manylion gwahardd oherwydd natur y gwaith, ac nid oherwydd y teitl "ymddiriedolwr".

Noder hefyd: Mae ymddiriedolwr, ynghlwm wrth y gwaith o reoli'r eglwys sy'n darparu gweithgareddau penodol ar gyfer plant a/neu oedolion bregus, yn gymwys ar gyfer gwiriad manwl heb wiriad o restr gwahardd oherwydd cyfrifoldeb yr ymddiriedolwyr dros weithgareddau'r elusen grwpiau bregus.

Pan fo cymwysedd, ein polisi yw y dylid cynnal gwiriad DBS manwl. Mae hyn yn gyson ag egwyddorion Arfer Da a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau

A yw tystysgrifau DBS yn gludadwy?

Dylid derbyn tystysgrif DBS ar gyfer pob sefydliad yr ydych yn gweithio gyda hi. Er enghraifft, os oes gan unigolyn dystysgrif DBS oherwydd ei waith fel athro ysgol, byddai'n rhaid iddo geisio am dystysgrif hefyd o ran ei waith gyda'i eglwys trwy'r Panel Diogelwch Cydenwadol.

'Dydy tystysgrifau DBS ddim yn gludadwy. Fodd bynnag, gall fod yn bosib' ail-ddefnyddio tystysgrif DBS os yw ymgeisydd wedi cofrestru gyda Gwasanaeth Diweddarau'r DBS. Golyga hynny y caiff eu cofnod ei ddiweddarau'n electroneg a gall holl 'gyflogwyr' y dyfodol fynd ar-lein i weld a yw'r dystysgrif yn cynnwys y manylion mwyaf diweddar. Mae'n rhaid i ymgeisydd gyflwyno cais personol i ymuno â'r gwasanaeth diweddarau o fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi tystysgrif DBS gan roi eu cyfeiriad e-bost. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr ac yn costio £13 y flwyddyn ar gyfer gweithwyr cyflogedig.

Rhagor o Wybodaeth

Mae'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus ar gael ar wefan y Panel Diogelwch Cydenwadol ac ar wefannau enwadol.

Gellid gweld mwy o wybodaeth am holl elfennau gwiriadau DBS gan gynnwys rhestr wiro gweithwyr plant ac oedolion ac y gwasanaeth diweddarau ar wefan y Panel. <http://www.paneldiogelwch.org.uk/>

neu wefan y DBS <https://www.gov.uk/government/collections/dbs-checking-service-guidance--2>

Cysylltwch â swyddfa'r Panel Diogelwch Cydenwadol os ydych angen rhagor o gyngor, llawlyfr, copïau papur o unrhyw un o'r canllawiau uchod neu i dderbyn ffurflenni cais DBS.

1 Vale Parc Ystâd Ddiwydiannol Colomendy Industrial Estate, Dinbych LL16 5TA

☎ + 📄 01745 817584 📧 post@paneldiogelwch.org.uk 🌐 www.paneldiogelwch.org.uk